

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Ward Morlais, Ysbyty Glangwili
Dyddiad y gweithgarwch: 4 Mawrth 2021
Dyddiad cyhoeddi: 5 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Morlais fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Ward Morlais yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl i hyd at naw claf sy'n oedolyn sydd â salwch meddwl aciwt yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin. Mae gan y ward un gwely dynodedig i ddarparu cymorth i un person ifanc hefyd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr Ward Morlais ar 4 Mawrth 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod Ward Morlais wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau'r polisiâu a'r gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19. Roedd y ward wedi lleihau nifer y gwelyau o 10 i 9 er mwyn sicrhau bod parthau coch ar gael ar gyfer cleifion symptomatig a chleifion COVID-19.

Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys aildrefnu'r ardaloedd bwyta a seddi'r lolfa fel bod mwy o le ar gael. Dywedwyd wrthym fod aildrefnu'r seddi yn yr ardaloedd cymunedol, a gosod posteri ar y waliau a sticeri ar y llawr, wedi helpu i atgoffa'r cleifion am y mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Esboniodd rheolwr y ward sut roedd y swyddfeydd wedi cael eu haddasu i sicrhau bod modd dilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol yn y ffordd fwyaf ymarferol â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys symud cyfrifiaduron a'u rhoi mewn swyddfa arall, a defnyddio ystafelloedd mwy eraill i gynnal Cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol a chyfarfodydd â chleifion.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gleifion ar y ward wedi cael prawf COVID-19 positif, ac nad oedd ganddynt unrhyw heintiau eraill a gafwyd wrth gael gofal iechyd ar adeg ein galwad.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ymweld wedi cael eu newid yn unol â chanllawiau'r llywodraeth a'r bwrdd iechyd. Er na chaniateir ymwelwyr ar y ward, lle y bo'n berthnasol, gwnaed paratodau ar gyfer ymweliadau oddi ar y ward a fyddai'n cefnogi mesurau cadw pellter cymdeithasol. Dywedwyd wrthym fod asesiad risg yn cael ei gynnal ar gyfer pob ymweliad, a bod pob ymweliad yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.

Dywedwyd wrthym fod caniatâd i gleifion fod yn absennol yn cael ei reoli yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ac asesiadau risg unigol.

Dywedwyd wrthym fod arferion y cleifion ar y ward yn parhau fel arfer. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng y cleifion a'r Tîm Amlddisgyblaethol lle mae'r cleifion yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau sydd ar waith, mae dulliau cyfathrebu amgen yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau. Mae ipads ar gael ar y ward, a gall y cleifion ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain. Dywedwyd wrthym y gellir helpu'r cleifion i wneud galwadau 'face-time' ac anfon e-byst. Yn ogystal â hyn, gall cleifion ddefnyddio ffôn y ward.

Rhoddodd rheolwr y ward rai enghreifftiau o arferion gweithio cadarnhaol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig. Esboniodd rheolwr y ward fod y gallu i ddefnyddio systemau TG sy'n cefnogi gweithio o bell wedi gwella amseroldeb cyfarfodydd proffesiynol, Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ac adolygiadau. Dywedwyd wrthym fod cleifion mewnol yn treulio llai o amser yn yr ysbyty (lle y bo'n briodol) o ganlyniad i hyn a bod cyfathrebu da mewn perthynas â chynlluniau rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Dywedodd rheolwr y ward wrthym hefyd nad oedd unrhyw gleifion sy'n oedolion wedi cael eu derbyn i ysbyty mewn ardal bwrdd iechyd arall yn ystod y pandemig, a oedd yn fuddiol i'r cleifion ac yn helpu aelodau o'u teulu i barhau i fod yn rhan o'u gofal.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau rheolaidd a gynhelir er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Cafodd yr archwiliad rheoli heintiau chwarterol diweddaraf ei gwblhau gan y tîm atal heintiau ym mis Chwefror 2021.

Cawsom y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys y rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol a'r canllawiau pellach a gyflwynwyd mewn perthynas â COVID-19. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn rheolaidd a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg COVID-19 ar waith ar gyfer pob claf ac aelod o'r staff. Dywedwyd wrthym hefyd fod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach ym mhob rhan o'r ysbyty. Mae cyfleusterau golchi dwylo ar gael i'r cleifion a'r staff ym mhob rhan o'r ward, ac mae posteri sy'n cynnwys gwybodaeth am olchi dwylo a COVID-19 yn cael eu harddangos er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion yn weledol.

Dywedodd rheolwr y ward fod cydberthnasau gweithio da wedi cael eu meithrin â'r adran sy'n cyflenwi PPE yn ogystal â'r adran Atal a Rheoli Heintiau, a oedd yn helpu i gyfrannu at y gwaith o redeg y ward yn effeithiol ac yn cefnogi tîm y ward i roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac yn eu cyflawni. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y data cydymffurfiaeth a gyflwynwyd ar gyfer hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Yn ogystal â hyn, darparwyd hyfforddiant ar wisgo a diosg PPE a hyfforddiant ar fasnau FFP3¹ i'r staff.

Yn ogystal â hyfforddiant staff, caiff posteri â chyfarwyddiadau eu harddangos mewn ardaloedd clinigol er mwyn rhoi gwybod i'r staff am y gofynion o ran PPE, pwysigrwydd glanhau pwyntiau cyffwrdd yn rheolaidd, defnyddio weips priodol, a sicrhau bod y staff a'r cleifion yn golchi eu dwylo mor aml â phosibl.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod y staff yn cael eu hannog i herio unrhyw aelodau o'r staff nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion o ran PPE a 'noeth o dan y penelin', a bod y rheolwyr yn cynnal hapwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Ni fu modd inni benderfynu ar sail y dogfennau credydau ar gyfer glanhau (C4C) a anfonwyd atom a oedd yr holl archwiliadau a champau gweithredu wedi cael eu cwblhau. Mae angen i'r ddogfen hon gael ei hadolygu ac mae angen cymryd unrhyw gamau gweithredu nad ydynt wedi cael eu cwblhau eto.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eraill pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Pan edrychwyd ar y swyddi gwag a'r data ar absenoldebau ni nodwyd unrhyw broblemau staffio. Dywedwyd wrthym fod dwy swydd wag ar gyfer nyrsys cofrestredig ac un swydd wag ym maes cymorth gofal iechyd ar hyn o bryd. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod

¹ Caiff masg FFP3 ei wisgo wrth gynnal gweithdrefnau cynhyrchu aerosol heintus o bosibl

cyfarfodydd yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd i drafod lefelau staffio a nifer y cleifion ar y ward. Caiff adnoddau staff eu cynllunio ymlaen llaw a'u hadolygu bob dydd er mwyn helpu i sicrhau bod digon o aelodau o'r staff yn gweithio i ddiwallu anghenion gofal y cleifion ar Ward Morlais. Roedd unrhyw fylchau fel arfer yn cael eu llenwi drwy ddefnyddio staff banc, neu drwy ofyn i staff y ward ymestyn eu sifft.

Cawsom gopïau o ddata llais y cleifion² a data ar ddigwyddiadau ar gyfer mis Tachwedd 2020, mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021, sy'n dangos bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n briodol.

Parhawyd i gynnal adolygiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac i gadw mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol allanol, fel eiriolwyr, drwy alwadau ffôn a fideo-gynadleda. Roedd gwasanaethau eirioli ar gael unwaith eto ar y ward.

Dywedwyd wrthym fod tîm gweinyddu'r ddeddf iechyd meddwl yn cynnal gweithgareddau craffu dwbl ar y cyd â seiciatrydd ymgynghorol ar yr holl bapurau sy'n ymwneud â chadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wrth dderbyn cleifion. Mae seiciatrydd ymgynghorol hefyd yn craffu ar bob tystysgrif cydsynio i driniaeth.

Caiff siartiau cydsynio i driniaeth a siartiau meddyginiaeth eu gwirio bob wythnos gan fferylllydd y ward wrth gynnal adolygiadau o'r cleifion.

Cawsom ddata cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant gorfodol i'r staff. Er bod nifer o feysydd yn dangos cydymffurfiaeth uchel, gyda chyfradd gwblhau o 78%, nodwyd materion y mae angen mynd i'r afael â nhw wrth adolygu'r ystadegau hyfforddiant. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod yn yr adran Gwelliannau a Nodwyd.

Dywedwyd wrthym fod cyfrifiaduron ar gael i'r staff gwblhau hyfforddiant ar-lein a bod rheolwr y ward yn annog staff i gwblhau eu hyfforddiant yn ystod cyfnodau tawel ar y ward.

Roedd y data a gafwyd yn dangos cyfradd gydymffurfio uchel ag arfarniadau staff, gyda chyfradd gwblhau o 93.75%. Dywedodd rheolwr y ward wrthym, yn ogystal â'r broses ddyddiol o drosglwyddo rhwng sifftiau, fod cyfarfodydd staff wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod gan y staff wybodaeth gyfredol. Dywedwyd wrthym fod digon o gefnogaeth ar gael i'r staff. Yn ogystal â'r cynllun cymorth i gyflogeion, roedd y tîm seicoleg yn cynnig cymorth i unrhyw aelod o'r staff a allai fod yn dioddef o orbryder neu gyflwr tebyg o ganlyniad i COVID-19.

Ni chawsom gopi o'r polisi uwchgyfeirio, ond cawsom gopi o'r weithdrefn gwyno, Gweithio i Wella. Dywedodd rheolwr y ward wrthym y byddai unrhyw achos o risg uniongyrchol yn cael ei uwchgyfeirio at yr unigolyn priodol yn syth. Mae cyfarfodydd rheolaidd sy'n cynnwys uwch-aelodau o'r staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn darparu llwyfannau ar gyfer trafod materion. Dywedodd rheolwr y ward wrthym ei bod yn teimlo bod uwch-dîm arwain y bwrdd iechyd yn ei chefnogi.

²Data Llais y Cleifion - adborth gan gleifion ar eu gofal a'u triniaeth.

Esboniodd rheolwr y ward y polisi a'r broses ar gyfer derbyn pobl ifanc i'r ysbyty. Gwnaethom holi rheolwr y ward am y defnydd a wneir o'r ward, pa mor hir y mae cleifion yn aros ar y ward ac unrhyw oedi cyn dod o hyd i leoliadau amgen. Rhoddwyd data inni a oedd yn dangos bod y bwrdd iechyd yn monitro ac yn cofnodi'r wybodaeth hon.

Siaradodd rheolwr y ward yn gadarnhaol am yr arferion myfyriol a gynhelir gyda'r tîm seicoleg, gan ganmol ei tîm drwy gydol y cyfweiliad a dweud ei bod yn falch o'r ffordd roedd ei tîm wedi gweithio ac wedi addasu yn ystod y pandemig.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom fod cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol wyneb yn wyneb yn isel, er enghraifft Diogelwch Tân Lefel 2 (0%), Dadebru Lefel 2 (45%). Roedd y wybodaeth a gafwyd yn dangos bod cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant ar ddiogelu yn isel, ond roedd y wybodaeth ychwanegol a roddwyd yn dangos bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer y staff, a bod y cyfraddau cydymffurfio a gofnodwyd uwchlaw 90%. Er bod lefelau hyfforddiant diogelwch tân yn isel, dywedwyd wrthym fod cyfradd gwblhau o 97% ar gyfer y modiwl e-ddysgu a oedd ar waith tan y gellid ailgydio mewn sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb. Rydym yn cydnabod bod newidiadau mewn ffyrdd o weithio yn sgil COVID-19 ac anawsterau o ran sicrhau gwasanaethau darparwyr hyfforddiant o dan yr amgylchiadau presennol wedi effeithio ar ffigurau hyfforddiant gorfodol. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried pob opsiwn er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau o beidio â sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant gorfodol cyfredol. Gallai hyn gynnwys parhau i chwilio am ddarparwyr mewnol neu allanol i ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb pan aseswyd bod y dull asesu hwn yn ddiogel ac yn briodol. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid ystyried a oes modd darparu'r hyfforddiant drwy ddulliau digidol, fel gweminarau, fideogynadledau neu raglenni e-ddysgu.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o'r adolygiad diweddaraf o'r ymyriadau ataliol a'r technegau rhwystro diogel a ddefnyddir i reoli ymddygiadau heriol penodol. Roedd y ffigurau ar gyfer Ward Morlais rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Chwefror 2021 yn uchel, ac mae hyn wedi'i gofnodi ar y ffurflen hunanasesu yn ogystal ag yn yr adroddiad chwe misol ar arferion clinigol mewn perthynas ag ymyriadau corfforol. Yn ystod ein cyfweiliad â rheolwr y ward, dywedwyd wrthym fod y ffigurau hyn yn anarferol o uchel ar gyfer Ward Morlais, a bod y ward wedi cael ffigurau isel iawn tan fis Tachwedd 2020. Roedd yr adroddiad ar arferion clinigol yn adlewyrchu hyn. Dywedodd rheolwr y ward fod y ffigurau yn anarferol o uchel am fod cleifion ag anghenion gofal cymhleth wedi cael eu derbyn i'r ward, ac roedd yr adroddiad yn dangos hyn hefyd.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwaith dadansoddi cynhwysfawr pellach ei wneud, sy'n dangos, pan fydd angen atal cleifion yn gorfforol, bod hynny'n digwydd am gyn lleied o amser â phosibl, a bod disgrifiad manwl o'r math o ataliad a ddefnyddiwyd ac am faint o amser y cafodd ei ddefnyddio, yn cael ei ddogfennu'n llawn ym mhob achos.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Glangwili

Ward: Morlais

Dyddiad y gweithgarwch: 4 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu archwiliad C4C a sicrhau y cymerir unrhyw gamau nad ydynt wedi cael eu cymryd eisoes ac y darperir tystiolaeth o hyn.	Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae Morlais yn cael ei ystyried yn arwyddocaol o fewn C4C. Cynhaliwyd yr archwiliad diweddaraf ar 25 Chwefror 2021. Mae cynllun gweithredu manwl yn cael ei lunio er mwyn nodi faint o waith atgyweirio sydd ei angen a chadarnhau cost darged, ffynhonnell cyllid ac amserlen ymarferol ar gyfer cwblhau'r gwaith. Caiff y dadansoddiad cychwynnol ei gwblhau erbyn mis Mai 2021, a chaiff camau dilynol (os geir cymeradwyaeth ariannol)	Rheolwr Gweithrediadau a Rheolwr Gweithrediadau Safle Cynorthwyol	Mai 2021

			<p>eu cymryd yn raddol yn dilyn y cynnig a'r broses gymeradwyo. Os na fydd cyllid cyfalaf ar gael i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, yna bydd y gwasanaeth yn uwchgyfeirio'r mater yn briodol.</p> <p>Heblaw am yr her benodol ar ward Morlais, mae'r tîm Ystadau wrthi'n cyflwyno system Synbiotix newydd fesul cam (mae eisoes ar waith mewn Byrddau Iechyd eraill) a fydd yn galluogi data amser real, ymatebion a gwelliannau mewn effeithlonrwydd mewn perthynas safonau glanhau. Mae'r system yn cael ei chyflwyno fesul cam yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.</p>	<p>Rheolwr Gweithrediadau a Rheolwr Gweithrediadau Safle Cynorthwyol</p>	<p>Mawrth 2022</p>
2	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r data ar hyfforddiant a rhoi sicrwydd bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol er mwyn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol, yn ogystal ag adolygu'r data ar hyfforddiant er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau yn darparu ffigur cydymffurfio cywir a chyfredol.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal - 3.4 llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg gyfathrebu a 7.1 y gweithlu</p>	<p>O ganlyniad i bandemig COVID-19, mae'r holl hyfforddiant L2 wyneb yn wyneb ar ddiogelwch tân wedi cael ei ohirio am y tro. Mae'r penderfyniad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd o ran pryd y gellir ailgychwyn sesiynau L2 wyneb yn wyneb.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ac wedi derbyn y gall pob aelod o'r staff ddefnyddio'r pecyn hyfforddiant L1 ar-lein i gyflawni cymhwysedd L1 ym maes diogelwch tân.</p>	<p>Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Rheoli Cyfalaf</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Yn unol â llacio cyfyngiadau COVID-19</p> <p>Mai 2021</p>

3	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a dadansoddi ymhellach y data ar atal yn gorfforol a gyflwynir i AGIC, a darparu mwy o fanylion/dadansoddiadau o'r digwyddiadau.	Safonau lechyd a Gofal - 2.1 rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<p>Adolygu'r holl ddata ar ddigwyddiadau ar ward Morlais o'r chwarter diwethaf</p> <p>Nodi unrhyw themâu sy'n codi o'r adroddiadau chwarterol ar ddigwyddiadau</p> <p>Cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o'r canfyddiadau</p> <p>Caiff canlyniadau'r adolygiad/gwaith dadansoddi eu cyflwyno i fforwm y rheolwyr wardiau. Yna gellir cofnodi hyn yn adroddiad y cadeirydd i'r Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelu ar gyfer lechyd Meddwl/Anabledau Dysgu.</p>	<p>Uwch-nyrs ar gyfer Unedau lechyd Meddwl Mewnol i Oedolion</p> <p>Uwch-nyrs ar gyfer Unedau lechyd Meddwl Mewnol i Oedolion</p> <p>Uwch-nyrs ar gyfer Unedau lechyd Meddwl Mewnol i Oedolion</p> <p>Uwch-nyrs ar gyfer Unedau lechyd Meddwl Mewnol i Oedolion</p>	<p>Ebrill 2021</p> <p>Ebrill 2021</p> <p>Ebrill 2021</p> <p>Mai 2021</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Natasha Mitchell

Dyddiad: 07/04/2021